



University of Wales
Prifysgol Cymru

Gweithdrefn Cymeradwyo Asesiadau

Mawrth 2014

Prifysgol Cymru

Gweithdrefnau Cymeradwyo Asesiadau

MYNEGAI

1.	CYFLWYNIAD	2
1.1	Diben y ddogfen	
1.2	Diffiniad o asesu	
1.3	Cynnwys y ddogfen	
2.	ASESU A SAFONAU	3
2.1	Mesur safonau dyfarniadau'r Brifysgol	
2.2	Rôl yr arholwyr allanol	
2.3	Sicrhau safonau	
3.	PROSESAU CYMERADWYO ASESIADAU	4
3.1	Trosolwg o'r broses cymeradwyo	
3.2	Rhoi'r broses ar waith	
	Terfynau amser cyflwyno asesiadau i'w cymeradwyo	
	Beth sy'n gorfod cael ei gyflwyno i'r Brifysgol i'w gymeradwyo?	
	Delio ag asesiadau ailsefyll	
	Ym mha ffurf y dylid cyflwyno asesiadau?	
	Asesiadau mewn ieithoedd ar wahân i'r Gymraeg a'r Saesneg	
4.	DIOGELWCH ASESU	7
5.	METHU CYDYMFFURFIO	7
	Atodiad A: Calendr Asesu	8
	Atodiad B: Ffurflen Cymeradwyo Asesiad	9
	Atodiad C: Rhestr Wirio Cyflwyno Asesiad	10

Prifysgol Cymru

Gweithdrefnau Cymeradwyo Asesiadau

1. CYFLWYNIAD

1.1 Diben y ddogfen

Mae'r ddogfen yn cynnig arweiniad ar y gweithdrefnau ar gyfer cymeradwyo deunydd i'w asesu gan ganolfannau cydweithredol. Fe'i cynlluniwyd i'w defnyddio ar y cyd â Llawlyfr Graddau Trwy Gwrs Prifysgol Cymru, sy'n cynnwys y set gyflawn o Reoliadau Academaidd, protocolau, gweithdrefnau ac arweiniad sy'n darparu'r fframwaith rheoleiddiol y caiff yr holl raglenni eu cyflwyno oddi mewn iddo, ac y disgwylir i arholwyr allanol weithredu oddi mewn iddo. Gyda'i gilydd mae'r dogfennau hyn yn ffurfio Fframwaith Academaidd Cyffredin y Brifysgol ar gyfer Dyfarniadau Trwy Gwrs.

Dylid cyfeirio ymholiadau neu bryderon yn ymwneud ag unrhyw beth yn y Ddogfen hon i:

Asesiadau
Cofrestrfa Prifysgol Cymru
Rhodfa'r Brenin Edward VII
Parc Cathays
Caerdydd, CF10 3NS
Ffôn.: +00 44 (0)29 2037 6999
Ebost: Assessments@cymru.ac.uk

1.2 Diffiniad o asesu

Yng nghyd-destun y ddogfen hon, defnyddir y term 'asesiad' i olygu unrhyw fath o werthuso sy'n arwain at farc, neu raddiad mewn perthynas ag astudio ar gyfer dyfarniad Prifysgol Cymru.

Yn unol â hynny, mae'n cynnwys:

- i. pob arholiad, boed gyda chyfyngiadau amser ai peidio, llyfr agored neu beidio;
- ii. gwaith aseiniad cwrs h.y. briffau a meini prawf marcio
- iii. gwaith prosiect, h.y. briffau a meini prawf marcio.

1.3 Cynnwys y ddogfen

Mae'r ddogfen yn disgrifio'r egwyddorion allweddol sy'n cysylltu asesu a sicrhau safonau dyfarniadau Cymru. Mae'n disgrifio'r weithdrefn sydd gan Brifysgol Cymru i gwmpasu cymeradwyo asesiadau gan arholwyr allanol. Mae'n cynnig arweiniad ar ymdrin â deunydd asesu mewn ieithoedd ar wahân i'r Gymraeg a'r Saesneg. Mae hefyd yn cynnwys gwybodaeth am ofynion y Brifysgol ar gyfer sicrhau diogelwch deunydd i'w asesu yn ystod y broses gymeradwyo.

2. ASESU A SAFONAU

2.1 Mesur safonau dyfarniadau Prifysgol Cymru

Er mwyn sicrhau bod safonau ac ansawdd dyfarniadau'r Brifysgol yn cael eu cynnal ar sail cwblhau'n llwyddiannus raglenni cymeradwy o astudio a gyflwynir mewn canolfannau cydweithredol, rhaid cynnal asesiadau ac arholiadau yn unol â'r meini prawf manwl a ddogfennwyd ac a gytunwyd ar adeg dilysu, gan ddilyn gofynion y Fframwaith Academaidd Cyffredin ar gyfer Dyfarniadau Trwy Gwrs a gymeradwywyd gan y Brifysgol.

Rhaid i gwestiynau asesiadau (a chyfarwyddiadau aseiniadau / prosiectau lle bo'n briodol) arholi maes llafur y rhaglen, a rhaid bod modd eu cwblhau o fewn yr amser sydd ar gael. Y canlyniadau dysgu a'r system dosbarthu dyfarniadau fydd yn penderfynu ar y math o asesiad a natur y cwestiynau neu'r tasgau a osodir. Bydd yn bwysig fod cwestiynau (neu dasgau) ar lefel (o ran gofynion academaidd ar fyfyrwr) sy'n briodol i'r dyfarniad dan sylw.

Ar yr un pryd, bydd angen i ganolfannau cydweithredol (a'r Brifysgol) sicrhau bod dyfarniad yn gyfwerth â rhai mewn sefydliadau dyfarnu graddau eraill yn y DU.

Mae'r Brifysgol yn gweithredu i sicrhau safonau ei dyfarniadau yn bennaf drwy gynnal trosolwg o'r canlyniadau dysgu a'r lefelau asesu.

2.2 Rôl yr arholwyr allanol

Mae arholwyr allanol, fel arbenigwyr cydnabyddedig yn eu meysydd, yn chwarae rôl ganolog yn y broses gymeradwyo, a bydd y Brifysgol yn dibynnu ar eu barn nhw am sicrwydd bod yr asesiad o berfformiad myfyrwyr yn gadarn, yn ddibynadwy ac o safon sy'n cyd-fynd â rhaglenni cyfatebol mewn sefydliadau addysg uwch yn y DU.

Wrth gyflawni'r rôl hon, mae arholwyr allanol yn chwilio am dystiolaeth sy'n dangos:

- bod yr asesiadau mewn modiwlau unigol yn cwmpasu canlyniadau dysgu'r modiwl yn briodol a, gyda'i gilydd, y rhaglen gyflawn;
- bod yr asesiadau ar lefel briodol i'r rhaglen dan sylw.

Mae arholwyr allanol felly'n chwarae rhan bwysig fel ceidwaid safonau academaidd dyfarniadau'r Brifysgol. Yn benodol, mae'r Brifysgol yn disgwyl i arholwyr allanol arwain i sicrhau:

- bod y safonau a osodir ar gyfer dyfarniad yn parhau'n briodol i'r cymhwyster penodol;
- bod y safonau cyffredinol o berfformiad myfyrwyr yn cyfateb i'r hyn a geir mewn rhaglenni neu ddisgyblaethau tebyg mewn sefydliadau addysg uwch eraill yn y DU y maent yn gyfarwydd â nhw;
- bod y prosesau asesu, arholi a phennu dyfarniadau'n gadarn ac yn deg.

Yn y cyd-destun hwn mae arholwyr allanol yn chwarae rôl allweddol ym mhrosesau'r Brifysgol ar gyfer cymeradwyo asesiadau.

2.3 Sicrhau safonau

Mae Adran 3 y ddogfen hon yn disgrifio prosesau'r Brifysgol ar gyfer cymeradwyo asesiadau. Mae'n bwysig pwysleisio ei bod yn un o'r rhagofynion gorfodol ar gyfer caniatáu i asesiadau myfyrwyr gael eu cynnal bod arholwyr allanol wedi cymeradwyo asesiadau o flaen llaw. Rhaid cyflwyno asesiadau ailsefyll cytras ar yr un pryd â'r prif asesiad dan sylw.

Dylai canolfannau cydweithredol nodi na fydd y Brifysgol yn caniatáu cynnal asesiad sy'n cyfrannu at ddyfarniad terfynol os nad yw'r asesiad dan sylw wedi derbyn cymeradwyaeth gan yr arholwr/wyr allanol. Mae'n dilyn bod methu â chydymffurfio â'r prosesau a ddisgrifir yn y ddogfen hon yn golygu y bydd y Brifysgol yn dal ei chaniatâd i gynnal asesiad yn ôl ac y bydd yn gwrthod caniatáu cynnal bwrdd arholi. Yn ôl ei disgresiwn, gall y Brifysgol gymryd camau gweithredu os na fydd canolfan yn cydymffurfio â'r gofyniad hwn.

Dylai canolfannau hefyd nodi y bydd defnyddio asesiadau nad ydynt wedi derbyn cymeradwyaeth o flaen llaw gan yr arholwr/wyr allanol ar gyfer unrhyw raglen yn gosod eu myfyrwyr mewn sefyllfa lle gallai fod gofyn iddynt ymgymryd ag asesiadau ychwanegol (h.y. wedi'u cymeradwyo) gydag unrhyw farciau a enillir drwy'r broses asesu nad yw wedi'i chymeradwyo'n cael eu dileu.


3. PROSES AU CYMERADWYO ASESIADAU

3.1 Trosolwg o'r broses cymeradwyo

Prif elfennau proses y Brifysgol ar gyfer cymeradwyo asesiadau yw:

- i. caiff asesiad drafft ei baratoi gan dîm rhaglen mewn canolfan cydweithredol;
- ii. caiff yr asesiad drafft, ynghyd â'r asesiad ailsefyll cysylltiedig (gweler adran 3.2 isod) ei gyflwyno erbyn y terfyn amser perthnasol i'r swyddog dynodedig ym Mhrifysgol Cymru;
- iii. mae'r Brifysgol yn anfon yr asesiadau drafft at yr arholwr/wyr allanol penodedig i'w hystyried;
- iv. mae'r arholwyr allanol yn adolygu'r asesiadau drafft ac yn darparu sylwadau a gofynion ar gyfer diwygiadau (lle bo'n briodol) i'r Brifysgol;
- v. mae swyddog dynodedig y Brifysgol yn dychwelyd sylwadau'r arholwyr allanol a'r gofynion am ddiwygiadau i'r ganolfan gydweithredol ynghyd â therfyn amser ar gyfer unrhyw ddiwygiadau;
- vi. lle bo angen diwygiadau, mae'r ganolfan gydweithredol yn dychwelyd y fersiwn diweddaraf o'r asesiad i'r Brifysgol i'w gyfleu i'r arholwr allanol a fydd yn ystyried a ddylid cymeradwyo fersiwn diwygiedig yr asesiad. Dylai canolfannau nodi os bydd arholwr allanol yn dal i fethu cymeradwyo aseiniad diwygiedig, y caiff camau iv, v ac vi uchod eu hailadrodd;
- vii. os bu'n rhaid gwneud diwygiadau, mae swyddog dynodedig y Brifysgol yn sicrhau cymeradwyaeth derfynol ac yn cyfleu hyn i'r ganolfan;
- viii. dylai'r ganolfan gydweithredol gadarnhau derbyn yr asesiadau cymeradwy a sicrhau eu bod yn cael eu cadw'n ddiogel;
- ix. ar yr adeg gywir, mae'r ganolfan gydweithredol yn symud ymlaen gyda'r asesiad cymeradwy.

Amlinellir y broses yn y siart llif dros y dudalen.



Ffigur 1: Siart llif y broses cymeradwyo asesiadau

3.2 Rhoi'r broses ar waith

Dyddiadau cau cyflwyno asesiadau i'w cymeradwyo

Rhaid i ganolfannau gyflwyno calendr asesu ar ddechrau pob sesiwn academaidd. Ceir enghraifft o'r calendr yn Atodiad A. Rhaid i'r calendr hwn ddiffinio dyddiadau'r holl arholiadau, yn ogystal â dyddiadau y cyhoeddir mathau eraill o asesu, fel gwaith cwrs neu aseiniadau.

Er mwyn caniatáu amser digonol i'r Brifysgol a'i harholwyr allanol gwblhau'r broses gymeradwyo (gan gynnwys ailgyflwyno ac ail-gymeradwyo os bydd yn ofynnol gan yr arholwr) mae'r Brifysgol yn ei gwneud yn ofynnol i'r canolfannau cydweithredol gyflwyno asesiadau i'w cymeradwyo o leiaf **un wythnos ar bymtheg** cyn dyddiad yr asesiad.

Mae'r tabl canlynol yn amlinellu amserlen y Brifysgol ar gyfer y broses gymeradwyo

Cam	Gweithredu	Cyfrifoldeb	Terfyn amser
1	Canolfan gydweithredol yn cyflwyno asesiad(au) a phapur ailsefyll drafft i'w cymeradwyo	Canolfan gydweithredol	O leiaf 16 wythnos cyn dyddiad yr asesiad
2	PC yn dychwelyd sylwadau'r a gofynion yr arholwr i'r ganolfan ac yn pennu dyddiad ar gyfer cyflwyno unrhyw ddiwygiadau i'w cymeradwyo'n derfynol	Swyddog dynodedig PC a'r arholwr allanol	O fewn 6 wythnos i dderbyn yr asesiad(au) gan y ganolfan
3	(Lle bo'n briodol) y ganolfan yn cyflwyno'r asesiad(au) diwygiedig i'w cymeradwyo'n derfynol	Canolfan gydweithredol	O fewn 3 wythnos i dderbyn sylwadau'r arholwr gan PC
4	(Lle bo'n briodol) PC yn sicrhau cymeradwyaeth derfynol gan yr arholwr/wyr allanol ac yn cyfleu hyn i'r ganolfan	Swyddog dynodedig PC a'r arholwr allanol	O fewn 2 wythnos i dderbyn yr asesiad diwygiedig
5	Y ganolfan yn cadarnhau derbyn yr asesiad(au) cymeradwy	Canolfan gydweithredol	O fewn 1 wythnos i dderbyn
7	Cynnal yr asesiad	Canolfan gydweithredol	Y dyddiad a bennwyd yn y calendr asesu

Tabl 1: Amserlen cymeradwyo asesiadau

Rhaid i ganolfannau cydweithredol nodi bod y terfyn amser o un wythnos ar bymtheg ar gyfer cyflwyno'r asesiadau drafft cyntaf yn orfodol. Os na chaiff asesiadau eu derbyn erbyn y dyddiad hwn ar yr hwyraf ni fydd y Brifysgol yn caniatáu i asesu (ac unrhyw gyfarfod cysylltiedig o fwrdd arholi) ddigwydd.

Bydd y Brifysgol hithau'n ymrwymo i sicrhau bod ei swyddogion a'i harholwyr allanol yn cydymffurfio â'r amserlen hon.

Dylai canolfannau nodi bod rhai cyflwyno Ffurflen Cymeradwyo Asesiad PC gyda phob asesiad. Ceir copi o'r ffurflen hon yn Atodiad B. Rhaid i Ganolfan gwblhau Adran 1 o'r ffurflen hon wrth gyflwyno asesiad. Dylai arholwyr allanol gwblhau Adran 2, ac mae Adran 3 ar gyfer cadarnhad terfynol gan ganolfan ei bod wedi derbyn fersiwn terfynol cymeradwy'r asesiad.

Beth sy'n gorfod cael ei gyflwyno i'r Brifysgol i'w gymeradwyo?

Rhaid cyflwyno'r holl asesiadau arfaethedig sy'n cyfrannu at ddyfarniad terfynol mewn rhaglen i'r Brifysgol i'w cymeradwyo. Mae hyn yn cynnwys arholiadau, aseiniadau cwrs a gwaith prosiect. Mae cyflwyno o fewn un wythnos ar bymtheg yn gymwys heb eithriad i'r holl ffurflenni asesu hyn.

Delio ag asesiadau ailsefyll

Mewn achosion lle bo myfyrwyr yn methu asesiad fel arfer mae'n ofynnol iddynt ailsefyll asesiad. Felly, pan fydd canolfannau cydweithredol yn cyflwyno asesiad ar gyfer ei gymeradwyo, rhaid hefyd cyflwyno asesiad ailsefyll drafft i'w gymeradwyo ar yr un pryd. Bydd hyn yn osgoi llithriad amser o ran sicrhau cymeradwyaeth i asesiadau ailsefyll.

Ym mha ffurf y dylid cyflwyno asesiadau?

Mae'n bwysig nodi gofyniad y Brifysgol (fel y nodir yn y rheoliadau atodedig) bod asesiadau a gyflwynir i'w cymeradwyo'n gorfod bod yn y ffurf y bydd myfyrwyr yn eu derbyn, h.y. yn ogystal â chwestiynau neu dasgau gosodedig, rhaid i asesiadau a gyflwynir i'r Brifysgol gynnwys cyfarwyddiadau i ymgeiswyr a manylion am y dosraniad marciau arfaethedig.

Hefyd rhaid i'r asesiadau arfaethedig gael canllaw marcio sy'n diffinio sut, ac ar ba sail, mae'r tîm marcio mewnol yn cynnig dosrannu marciau, ynghyd â'r Ffurflen Cymeradwyo Asesiad drafft.

Asesiadau mewn ieithoedd ar wahân i'r Gymraeg a'r Saesneg

Os yw asesiad mewn iaith ar wahân i'r Gymraeg neu'r Saesneg, rhaid i ganolfannau cydweithredol gyflwyno cyfieithiad Saesneg llawn o'r asesiad arfaethedig (gan gynnwys canllaw marcio) gyda'r fersiwn yn yr iaith wreiddiol. Ni ellir dal y Brifysgol yn gyfrifol am oedi neu ddileu asesiadau neu fyrddau arholi os nad yw'r gofyniad hwn yn cael ei ddilyn.

4. DIOGELWCH ASESU

Rhaid i ganolfannau cydweithredol sicrhau bod yr holl asesiadau a dogfennau cysylltiedig yn cael eu cadw a'u trosglwyddo dan amodau cwbl gyfrinachol. Rhaid hysbysu'r Brifysgol am unrhyw dorri diogelwch posibl.

Mae'n hanfodol bwysig drwy gydol y broses fod y gofal gorau bosib yn cael ei gymryd i sicrhau cyfrinachedd asesiadau cyn iddynt gael eu cynnal. Rhaid i'r holl staff wybod eu cyfrifoldebau yn hyn o beth a dylent sicrhau na all eu drafftiau gwaith na'u papurau terfynol fynd i'r parth cyhoeddus boed fel copi caled neu drwy rwydwaith cyfrifiadurol.

Wrth ymgymryd â'r broses cymeradwyo asesiad, gellir anfon papurau arholiad drafft i'r Gofrestrfa drwy ebost ar yr amod eu bod wedi'u diogelu â chyfrinair a gaiff ei anfon ar wahân.

5. METHIANNAU CYDYMFFURFIO

Mae papurau arholiad ac asesiadau eraill yn ganolog i sicrhau ansawdd a dilysrwydd dyfarniadau'r Brifysgol. Mae defnyddio asesiadau nad ydynt wedi'u cymeradwyo'n iawn gan arholwr allanol, neu unrhyw dorri diogelwch, yn faterion difrifol iawn a gallent annilysu proses ddyfarnu'r Brifysgol.

Bydd y Brifysgol yn cymryd camau cadarn os canfyddir unrhyw fethiant o'r fath i gydymffurfio. Gallai hyn olygu terfynu'r bartneriaeth rhwng y Brifysgol a'r ganolfan gydweithredol ar unwaith a/neu ymgeiswyr yn gorfod sefyll arholiad neu asesiad amgen.

Prifysgol Cymru
Mawrth 2014

Atodiad A: Calendr Asesu

Calendr Asesu

Nodwch yr wybodaeth angenrheidiol ar gyfer yr holl asesiadau sydd i'w sefyll yn eich canolfan yn y cyfnod rhwng 1 Awst 2014 a 31 Gorffennaf 2015.

Enw'r Ganolfan Gydweithredol:

Rhaglen Astudio	Teitl y Modiwl	Lefel	Dyddiad yr Asesiad	Natur yr Asesiad

*Anfonwch y ffurflen hon ynghyd ag unrhyw ymholiadau i assessments@cymru.ac.uk

Atodiad B: Ffurflen Cymeradwyo Asesiad



University of Wales
Prifysgol Cymru

Ffurflen Cymeradwyo Asesiad

Adran 1

Enw'r Ganolfan Gydweithredol:	
Rhaglen Astudio:	
Teitl y Modiwl:	
Lefel:	
Math (ee. Arholiad, Aseiniad, Gwaith Cwrs)	
Dyddiad yr Arholiad / Gosod yr Asesiad	
Fersiwn:	

Adran 2

Dewiswch un o'r opsiynau canlynol

<u>Opsiwn A</u> Mae'r asesiad hwn yn o safon briodol a gellir ei hargraffu (gyda mân ddiwygiadau lle bo angen). ☐	<u>Opsiwn B</u> Dylid cyflwyno drafft diwygiedig o'r asesiad, gan roi ystyriaeth i'r sylwadau isod. ☐
<u>Sylwadau/Argymhellion:</u>	
Enw'r Arholwr Allanol:	
Dyddiad:	
Llofnod:	

Adran 3

Rwyf trwy hyn yn tystio bod y fersiwn drafft o'r asesiad a nodir uchod wedi'i gymeradwyo gan yr Arholwr Allanol ac mai hwn fydd fersiwn terfynol yr asesiad.
Enw:
Dyddiad:
Llofnod:

Anfonwch eich ffurflen gyflawn ac unrhyw ymholiadau i: assessments@cymru.ac.uk



Rhestr Wirio Cyflwyno Asesiad

Yng nghyd-destun y weithdrefn cymeradwyo asesiadau, defnyddir y term 'asesiad' i olygu unrhyw fath o werthuso sy'n arwain at farc, neu raddiad, mewn perthynas ag astudio ar gyfer dyfarniad Prifysgol Cymru.

Yn unol â hynny, mae'n cynnwys:

- i. pob arholiad, boed gyda chyfyngiadau amser ai peidio, llyfr agored neu beidio;
- ii. gwaith aseiniad cwrs h.y. briffiau a meini prawf marcio
- iii. gwaith prosiect, h.y. briffiadau a meini prawf marcio.

Gwnewch yn siŵr fod y canlynol wedi'u cynnwys yn eich cyflwyniad

- ☐ y papurau cyntaf ac ailsefyll yn y ffurf y bydd y myfyrwyr yn eu derbyn;
- ☐ cyfieithiad Saesneg ynghyd â fersiwn iaith wreiddiol (os yw'n briodol);
- ☐ cyfarwyddiadau llawn i ymgeiswyr a manylion y dosraniad marciau arfaethedig;
- ☐ cynllun marcio;
- ☐ ffeiliau wedi'u diogelu â chyfrinair (cyfrineiriau i'w hanfon mewn ebost ar wahân)
- ☐ Ffurflen Cymeradwyo Asesiad (adran 1 yn unig i'w chwblhau gan y ganolfan gydweithredol)

Rhaid cyflwyno asesiadau i Brifysgol Cymru **o leiaf un wythnos ar bymtheg cyn** dyddiad yr asesiad naill ai fel atodiad ebost i assessments@cymru.ac.uk neu drwy gyfleuster uwchlwytho Prifysgol Cymru (manylion ar gais).

Bydd Prifysgol Cymru yn cydnabod derbyn eich asesiadau o fewn 10 diwrnod gwaith.